

Thema- Drysau

[Type here]

Ein Cwestiwn Mawr- Sut mae drysau yn adrodd stori yr ardal leol?

Techyd a Lles




Wrth archwilio adeiladau a lleoedd yn eu cymuned, bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae lleoedd yn dod â phobl at ei gilydd ac yn helpu i ffurfio cyfeillgarwch a chydberthnasau cadarnhaol. Byddant yn dysgu dangos gofal a pharch tuag at eraill, mynegi eu teimladau a'u hanghenion, a deall bod gan bawb hawliau sy'n bwysig mewn cymuned iach a chynhwysol. Byddant hefyd yn cymryd rhan mewn ymarfer corfforol a gwersi sgiliau pêl, gan ddatblygu cydweithio, cyfathrebu, chwarae teg a pharch at eraill. Byddant yn datblygu **llythrennedd** drwy drafodaethau, darllen ac ysgrifennu, **rhifedd** drwy arolygon syml a chasglu data, a **sgiliau digidol** drwy greu a chyflwyno gwybodaeth am eu cymuned a pherthnasoedd cadarnhaol.

Dyniaethau.



Wrth archwilio a chymharu Capel Tabernacl ag adeiladau crefyddol eraill, bydd y dysgwyr yn ystyried beth sy'n gwneud lle yn arbennig ac yn bwysig i wahanol bobl, gan gynnwys sut mae lleoedd yn adlewyrchu credoau a gwerthoedd. Byddant hefyd yn dysgu am ddathliadau fel Nadolig a Diwali, yn mapio adeiladau a lleoedd pwysig yn y pentref, ac yn cymharu cartrefi ac adeiladau yng Nghymru â rhai mewn gwledydd eraill. Byddant yn datblygu **llythrennedd** drwy darllen a thrafod storïau megis Jac a'r goeden ffa, **rhifedd** drwy fapio, cymharu a chofnodi gwybodaeth megis trefnu rhifau ar stryd o ddrysau, a **sgiliau digidol** drwy ddefnyddio mapiau, delweddau ac adnoddau digidol i ymchwilio i leoedd a dathliadau.

Gwyddoniaeth.



Wrth archwilio drysau a sut maent yn gweithio, bydd y dysgwyr yn ymchwilio i sut mae gwthio a thynnu yn defnyddio grymoedd i agor a chau drysau, ac yn arsylwi effaith grymoedd arnynt eu hunain ac ar wrthrychau. Byddant hefyd yn defnyddio meddylfryd dylunio a pheiranneg i ddylunio a chreu adeiladau, megis cestyll a thai, gan ystyried strwythur, deunyddiau a sut mae drysau a rhannau eraill yn gweithio. Byddant yn defnyddio **sgiliau digidol** i fapio a rhaglennu, er enghraifft drwy ddefnyddio Bee-Bot i symud o gwmpas map o'r dref, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o gyfeiriad, dilyniant a phatrymau. Byddant hefyd yn datblygu **llythrennedd** drwy drafod ac esbonio eu syniadau a **rhifedd** drwy fesur, cymharu a chofnodi.

Celfyddydau Mynegiannol



Wrth archwilio drysau, adeiladau a lleoedd arbennig drwy'r celfyddydau mynegiannol, bydd y dysgwyr yn arbrofi gydag amrywiaeth o ddeunyddiau, technegau a dulliau i greu eu gwaith creadigol eu hunain. Byddant yn datblygu eu gallu i fynegi syniadau, teimladau ac atgofion, gan ymateb i waith artistiaid a chymharu gwahanol arddulliau a syniadau. Byddant yn creu cardiau a chrefftau Nadoligaidd, yn defnyddio chwarae rôl i archwilio cymeriadau a sefyllfaoedd, ac yn datblygu eu sgiliau canu a pherfformio drwy baratoi caneuon ar gyfer Diolchgarwch a'r Nadolig. Byddant hefyd yn datblygu **llythrennedd** drwy drafod a myfyrio ar eu gwaith, **rhifedd** drwy batrymau, siapiau a mesur, a **sgiliau digidol** drwy ddefnyddio technoleg i greu, recordio a rhannu eu gwaith.

Cyd-destun Lleol: Adnabod adeiladau lleol ee siop, fet, capel, Ysgol, castell Dinefwr.



Thema- Drysau

[Type here]

Ein Cwestiwn Mawr- Sut mae drysau yn adrodd stori yr ardal leol?

